# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 2

GWARCHOD PLANT A GOFAL DYDD I BLANT

*Tramgwyddau, achosion troseddol a chosbau penodedig*

### 48 Hysbysiadau o gosb: darpariaethau atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth am unrhyw un neu unrhyw rai o'r canlynol—

(a) ffurf a chynnwys yr hysbysiadau o gosb;

(b) swm ariannol y gosb ac erbyn pa bryd y mae i'w thalu;

(c) penderfynu'r dulliau y gellir talu cosbau drwyddynt;

(d) y cofnodion sydd i'w cadw o ran hysbysiadau o gosb;

(e) tynnu hysbysiad o gosb yn ôl, mewn amgylchiadau a ragnodwyd, gan gynnwys—

(i) ad-dalu unrhyw swm a dalwyd am gosb o dan hysbysiad o gosb a dynnir yn ôl, a

(ii) gwahardd codi achos cyfreithiol neu barhau ag ef am y tramgwydd y mae'r hysbysiad a dynnir yn ôl yn ymwneud ag ef;

(f) tystysgrifau sydd i'w derbyn yn dystiolaeth—

(i) sy'n honni eu bod wedi'u llofnodi gan neu ar ran person a ragnodwyd, a

(ii) sy'n datgan bod taliad o unrhyw swm a dalwyd am gosb wedi dod i law neu, yn ôl y digwydd, heb ddod i law ar ddyddiad a bennir yn y dystysgrif neu cyn y dyddiad hwnnw;

(g) camau sydd i'w cymryd os na thelir cosb yn unol â hysbysiad o gosb;

(h) unrhyw beth arall o ran cosbau neu hysbysiadau o gosb y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

(2) O ran rheoliadau o dan is-adran (1)(b)—

(a) cânt ddarparu ar gyfer cosbau o symiau gwahanol i fod yn daladwy mewn achosion gwahanol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y gosb sy'n daladwy o dan hysbysiad o gosb i wahaniaethu yn unol â'r amser erbyn pryd y telir hi, ond

(b) rhaid iddynt sicrhau nad yw swm unrhyw gosb sy'n daladwy o ran unrhyw dramgwydd yn fwy nag un hanner mwyafswm y ddirwy y byddai person sy'n cyflawni tramgwydd yn atebol amdani ar gollfarn ddiannod**[**[F1]neu, pan na fo mwyafswm o’r fath, nad yw’n fwy na’r swm sy’n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol ar gyfer tramgwyddau diannod**]**.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr “cosb” yw cosb o dan hysbysiad o gosb;

mae i “hysbysiad o gosb” yr ystyr a roddir gan adran 47.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 48(2)(b) wedi eu mewnosod (12.3.2015) gan The Legal Aid, Sentencing and Punishment of Offenders Act 2012 (Fines on Summary Conviction) Regulations 2015 (O.S. 2015/664), rhl. 1(1), **Atod. 5 para. 16** (ynghyd â rhl. 5(1))

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 48 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I2** A. 48 mewn grym ar 1.4.2011 gan O.S. 2010/2582, ergl. 2, **Atod. 1** (ynghyd ag Atod. 2, Atod. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 48.